


Gwerthu Hadau Coed:

# Astudiaeth Achos Coetir Mynydd, 2021

# Gwerthu Hadau Coed…



"Dydyn ni ddim yn cael digon o incwm gan yr aelodau i dalu am ein costau yswiriant parhaus ac ati, felly fel rhyw fath o dreial, eleni fe wnaethon ni drefnu rhywfaint o 'ddiwrnodau casglu hadau i wirfoddolwyr' er mwyn codi arian.

Buom yn casglu afalau surion ac aeron drain gwynion, gan eu gwerthu wedyn i Feithrinfa Coedwig Maelor yn Wrecsam. Dros dri diwrnod pleserus, bu wyth o wirfoddolwyr yn casglu ac yn glanhau digon o hadau ar gyfer miloedd o goed afalau surion a mwy na 25,000 o lwyni drain gwynion.

Mae coed afalau surion o'r iawn ryw yn brin iawn. Fe wnaethon ni drefnu trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer casglu hadau mewn gwarchodfa natur leol lle credir bod y coed afalau surion gwyllt puraf yng Nghymru i'w cael.

Mae nifer o gynlluniau plannu yng Nghymru yn defnyddio drain gwynion a gaiff eu mewnforio o Ewrop, felly gwych o beth yw gallu darparu ychwaneg o stoc frodorol a gwneud ein rhan dros blannu coed.

Ac yn goron ar y diwrnod… fe wnaethon ni gasglu digon o arian i dalu am ein hyswiriant!"

- Grŵp coetir cymunedol Coetir Mynydd, 2021

**GYMRYD RHAN**

I gael gwybod mwy:

**GET INVOLVED**

To find out more:

**DEWISGWYLLT.CO.UK**

dewisgwyllt

LLAIS Y GOEDWIG
The voice of community woodlands in Wales

wild resources limited

Llywodraeth Cymru
Welsh Government